

Cynnig ac Adroddiad

Y Grŵp Symud Ymlaen / Moving Forward

Ein Grŵp

Mae Crynwriaeth yng Nghymru a'r Gororau yn fywiog ac yn fregus¹. Penodwyd y grŵp Symud Ymlaen i ystyried ffyrdd o'i bywiocau trwy ei gwneud yn llai bregus. Penodwyd cynrychiolwyr gan y pedwar Cyfarfod Rhanbarth (Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru, De Cymru a De'r Gororau) ac o Gyfarfod Crynwyr Cymru. Y dasg oedd edrych yn ôl ar yr hyn a wnaed yn y gorffennol, ymgynghori'n eang ac ymchwilio i ffyrdd o symleiddio strwythurau'r Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau². Yn union fel yr ydym yn cynnal adolygiadau ysbrydol, mae cynnal archwiliad ar ein heffeithlonrwydd, ein heffeithiolrwydd a'n heconomi yn gymorth tuag at ddeall ein strwythurau a'n cymhlethdodau. Ffocws y broses Symud Ymlaen gyfredol yw symleiddio dulliau gweithredu Cyfarfodydd Rhanbarth, ond disgwylir y bydd hyn yn arwain at esblygu yn y grwpiau lleol, fel y bydd yn haws iddynt ganolbwyntio ar groeso ysbrydol a gweithredu, ar y cyd ac yn rhanbarthol. Ein nod yw rhyddhau mwy o amser, egni a brwdfrydedd Cyfeillion at dasgau'r ysbryd.

CYNNIG

Y dewis yr ydym yn ei ffafrio, yw cyfuno, mewn un elusen newydd, y pum elusen bresennol (Cyfarfod Rhanbarth Gogledd Cymru, Cyfarfod Rhanbarth De Cymru, Cyfarfod Rhanbarth De'r Gororau a Chyfarfod Crynwyr Cymru sydd eisoes wedi eu cofrestru a Chyfarfod Rhanbarth Canolbarth Cymru sydd yn dal i fod yn elusen eithriedig). Byddai'r Ymddiriedolwyr yn cael eu henwebu gan y Cyfarfodydd Rhanbarth. Mae hyn yn apelio yn rhinwedd ei symlrwydd oherwydd byddai'n lleihau nifer yr elusennau i un ond ar yr un pryd yn cadw'r strwythur presennol gyda phedwar Cyfarfod Rhanbarth, y gellid eu rhannu ymhellach pe dymunid, a byddai'n cynnwys cyfrifoldebau Cyfarfod Crynwyr Cymru. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarfodydd Rhanbarth ddirprwyo i'r corff newydd hwn yr elfen honno o'u cyfrifoldebau sy'n ymwneud â rhedeg elusen.

¹ Gweler Atodiad 1 – *Bywiog ond Bregus, cyflwr Crynwriaeth yng Nghymru a'r Gororau*

² Gweler Atodiad 2 – *Cylch Gorchwyl y Grŵp*

Adroddiad

Gwybodaeth gefndirol

Gwybodaeth am Grynwyr yng Nghymru a'r Gororau

- Mae gennym **627** o Aelodau, **456** o Fynychwyr sy'n oedolion ac **83** o blant ar restrau'r pedwar Cyfarfod Rhanbarth
- Mae pum elusen sydd ar hyn o bryd yn penodi mwy na 30 o Ymddiriedolwyr, gan gynnwys Clercod a Thrysoryddion
- Rydym yn berchen ar 17 o Dai Cwrdd ac yn penodi mwy na 40 o aelodau o Bwyllgorau Adeiladau
- Yn ôl ein hamcangyfrifon rydym yn penodi Cyfeillion i bron 500 o swyddogaethau

Gwybodaeth am ein heiddo³

- Mae rhai o'n hadeiladau'n rhestredig ac mae ar lawer ohonynt angen gwaith atgyweirio mawr ond nid oes gennym ddigon o adnoddau ariannol hylifol i wneud y gwaith yma
- Rydym yn Berchen ar Fynwentydd ac eiddo buddsoddi.
- Mae gwerth yswiriedig ein portffolio eiddo yn cynrychioli rhywbeth fel £7 miliwn o asedau sefydlog.

Yr hyn mae'r adroddiad hwn yn ceisio ei wneud yw **symleiddio ein strwythurau fel y gall Cyfarfodydd Rhanbarth a Lleol ganolbwyntio ar feithrin yn ysbrydol ac ymestyn allan**. Y dasg gyntaf yw **galluogi Cyfeillion i ddeall yr heriau**.

Gwnaeth y ddogfen Quaker Structures in Wales and the Borders ⁴, a ysgrifennwyd ym mis Hydref 2006, argymhellion sy'n debyg i'r argymhellion sy'n cael eu gwneud yn awr. Mae'r trafodaethau ynghylch y saith Cyfarfod Rhanbarth yn Llundain ⁵ yn debyg iawn i safbwyntiau'r Grŵp Symud Ymlaen ac yn rhoi fframwaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae Cyfeillion wedi gofyn pam yr ydym yn Elusennau Cofrestredig. Rydym wedi cael cyngor gan y Clerc Cofnodi sy'n egluro nad oes gennym ddewis arall, i bob pwrpas, ond bod yn Elusen Gofrestredig er mwyn cyflawni swyddogaethau hanfodol o fewn y gyfraith⁶.

³ Gweler Atodiad 10b – *Rhestr eiddo ym mherchnogaeth y 4 Cyfarfod Rhanbarth*
Ac Atodiad 10c – *Cyllid yn Ymwneud ag Eiddo*

⁴ Gweler Atodiad 8 – *Adroddiad 2006 'Quaker structures in Wales and the borders'*

⁵ Gweler Atodiad 13 - *Thoughts on the future shape of Quakers in London*

⁶ Gweler Atodiad 5 – *Pam mae'n rhaid i ni fod yn elusen gofrestredig*

QF&P 15.04 Trustees responsibility

Friends who accept service as trustees take on specific and personal responsibility, on behalf of the meeting, for the obligations that rest on all Friends.

The commandment that we love our neighbours manifests itself for trustees as a duty to ensure, among other things, that the meeting fulfils the requirements of health and safety and child protection. Our love is diminished if, through our carelessness, we let our neighbours suffer.

The obligation to ensure the right use of our corporate resources requires trustees to take and weigh and act upon expert advice on, for example, law and good practice in employment, building maintenance and investment. We do not serve the meeting well if, for instance, we lose the use of a meeting house – not because it is no longer needed and the money can be put to better use elsewhere, but because we have failed to keep it in good repair or to retain wardens or are forced to dispose of it to meet other unplanned commitments.

Heriau sy'n ein hwynebu

- Enwebu Cyfeillion sy'n fodlon, yn abl ac yn gymwys, yn enwedig fel Ymddiriedolwyr a Thrysoryddion
- rheoli a chynnal a chadw ein portffolio eiddo helaeth
- cynnydd yn y gofynion cydymffurfio mewn sawl maes ond yn enwedig ym maes cofnodi ac adrodd ariannol i'r Comisiwn Elusennau a'r gofynion cynyddol a osodwyd gan y Banciau 'am resymau diogelwch'
- Mae angen lleihau'r baich gweinyddol.

Ail dasg y grŵp oedd edrych ar ffyrdd posib o leihau'r baich gweinyddol hwn. Ystyriwyd nifer o senarios:

Status Quo at bwrpasau cymharu.

Dewis 1 – Trosglwyddo perchnogaeth ar ein heiddo i un elusen fydd yn gyfrifol am reoli'r eiddo, eu cynnal a'u cadw a'r gwaith cyllid sy'n gysylltiedig â hynny gan gadw'r elusennau cyfarfod rhanbarth presennol a hynny'n golygu yn ei dro bod angen gwneud lliaws o benodiadau.

Dewis 2 - Cyfuno'r pedair elusen Cyfarfod Rhanbarth bresennol a Chyfarfod Crynwyr Cymru yn un elusen newydd. Byddai hynny'n golygu trosglwyddo perchnogaeth ar ein heiddo a chyfrifoldebau llywodraethu i'r elusen newydd hon. Byddai'r Cyfarfodydd Rhanbarth (gyda'u Cyfarfodydd Lleol cyfansoddol) yn parhau i fodoli, ond nid fel elusennau cofrestredig ar wahân mwyach. Byddai hyn yn lleihau nifer yr elusennau o bump i un ac yn bwysicaf oll byddai'n caniatáu i'r Cyfarfodydd Rhanbarth ganolbwyntio

ar eu prif waith, sef Meithrin yn Ysbrydol ac Ymestyn Allan. Dyma'r dewis rydym yn ei ffafrio.

Trwy gydol y trafodaethau roedd y grŵp yn ymwybodol bod rhai Cyfarfodydd Lleol a leolir yn Lloegr yn rhan o Gyfarfodydd Rhanbarth sy'n gyfarfodydd cyfansoddol Cyfarfod Crynwyr Cymru. Mae Cyfarfod Rhanbarth De'r Gororau wedi ystyried nifer o ddewisiadau ac yn ei gyfarfod ddydd Sadwrn 18 Gorffennaf 2020 mynegwyd y farn bod y rhan fwyaf o Gyfeillion yn rhoi gwerth mawr ar gymeriad unigryw De'r Gororau a'i bwysigrwydd fel dolen gyswllt rhwng y ddwy genedl. Mae'r grŵp o'r farn na ddylai ffiniau cenedlaethol benderfynu canlyniad y trafodaethau hyn ac maent yn rhoi gwerth mawr ar gyfraniad De'r Gororau yn enwedig i Gyfarfod Crynwyr Cymru ac mae'n dymuno annog Cyfeillion i ymuno â'r fenter gydweithredol newydd gyffrous hon.

Ystyried y Dewisiadau

Fel y dangoswyd eisoes, nid oes modd cynnal y sefyllfa bresennol ond mae'r grŵp wedi casglu gwybodaeth am y sefyllfa bresennol a'i chymharu â'r ddau ddewis arall a ystyriwyd.

Byddai Dewis 1 yn golygu creu elusen newydd y gellid efallai ei galw'n Ymddiriedolaeth Eiddo Crynwyr Cymru [a'r Gororau] (Wales [and the Marches] Quaker Properties Trust (WQPT)) a byddai'n debyg i'r London Quaker Properties Trust (LQPT)⁷ sydd newydd ei ffurfio (gan ddisodli'r Six Weeks Meeting a sefydlwyd gan George Fox) ac sydd yn berchen ac yn rheoli eiddo saith Cyfarfod Rhanbarth Llundain. Roedd y grŵp wedi synnu braidd o ddarganfod y gallai hyn mewn gwirionedd gynyddu nifer y penodiadau fyddai eu hangen.

Dewis 2, sef y dewis yr ydym yn ei ffafrio, fyddai cyfuno'r pum elusen bresennol (cyfarfod Rhanbarth Gogledd Cymru, Cyfarfod Rhanbarth De Cymru, Cyfarfod Rhanbarth De'r Gororau a Chyfarfod Crynwyr Cymru sydd eisoes wedi eu cofrestru a Chyfarfod Rhanbarth Canolbarth Cymru sydd yn dal i fod yn elusen eithriedig). Mae hyn yn apelio yn rhinwedd ei symlrwydd oherwydd byddai'n lleihau nifer yr elusennau i un ond ar yr un pryd yn cadw'r strwythur presennol gyda phedwar Cyfarfod Rhanbarth, y gellid eu rhannu ymhellach pe dymunid, a byddai'n cynnwys cyfrifoldebau Cyfarfod Crynwyr Cymru. Byddai'r Ymddiriedolwyr yn cael eu henwebu gan y Cyfarfodydd Rhanbarth. Byddai'n golygu addasiadau i'r berthynas rhwng Cyfarfodydd Rhanbarth a'r elusen newydd ac yn hyn o beth mae'n amserol oherwydd bod ein Llyfr Disgyblaeth yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd ond byddai'n dal i gyd-fynd â phrif rannau Quaker Faith and Practice 4.02. Mae'r project cyfarfodydd symlach yn ein hannog i fyw'n anturus⁸.

Byddai perchnogaeth ar yr holl eiddo yn cael ei throsglwyddo i'r elusen hon. Byddai'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol hefyd am lywodraethu gan gynnwys cofnodi ac adrodd ariannol, diogelu, diogelu data, etc. Byddai hyn yn lleihau nifer yr ymddiriedolwyr fyddai eu hangen o ryw 30 i gyn lleied â 12 efallai. Byddai hefyd yn symleiddio'r gwaith cofnodi ac adrodd ariannol yn sylweddol, a hynny'n ei dro yn golygu llai o waith i'r trysoryddion. Mae dewis

⁷ Gweler Atodiad 14 - *London Quaker Properties Trust*

⁸ Gweler Atodiad 14 - *Simpler Meetings Project*

tebyg i gyfuno'r saith Cyfarfod Rhanbarth a'r London Quaker Properties Trust yn cael ei ystyried ar hyn o bryd yn Llundain.

Byddai angen cael cyngor gan Bwyllgor Stiwardiaeth Cyfarfod Blynyddol Prydain a'r Comisiwn Elusennau er mwyn cyflawni hyn a llunio Cynllun mewn cydweithrediad â'r Comisiwn. Mae'r grŵp yn deall bod y Comisiwn yn awyddus i annog cyfuno o'r fath. Nid oes dwywaith na fyddai hyn yn llawer o waith ac mae dogfen ddefnyddiol a luniwyd gan Gyfarfod Rhanbarth Cumbria o'r enw 'Cumberland United'⁹ yn disgrifio'r cynllunio gofalus a wnaed i greu'r Cyfarfod Rhanbarth hwn trwy gyfuno dau Gyfarfod Rhanbarth. Ni ddylem gredu am eiliad y bydd y broses yn un hawdd a chyflym a hyd yn oed os bydd Cyfarfod Crynwyr Cymru a'i bedwar Cyfarfod Rhanbarth cyfansoddol yn cytuno ar y ffordd hon ymlaen eleni bydd yn cymryd amser i ddatrys y cymhlethdodau sydd ynghlwm.

Eiddo (Tai Cwrdd, Meysydd Claddu ac adeiladau eraill)

Mae'r grŵp yn credu mai Friends Trusts Limited (FTL) yw'r Ymddiriedolwr Gwarchodol. Byddai angen Cynllun Comisiwn Elusennau i alluogi trosglwyddo perchnogaeth ar asedau o'r Elusennau Cyfarfod Rhanbarth presennol. Byddai gwariant yn anorfod ond mae'n debygol o arwain at arbed arian yn y tymor hir. Byddai'r profiad o ffurfio LQPT yn gymorth a gwyddom fod FTL yn brofiadol iawn mewn trosglwyddiadau o'r fath.

Mae angen gwaith trwsio a gwaith atgyweirio sylweddol ar rai o'r Tai Cwrdd.¹⁰ Mae'r grŵp yn awgrymu bod ein portffolio eiddo yn cael ei adolygu'n llawn mewn perthynas ag amcanion yr elusen a'r defnydd o'n hadnoddau dynol ac ariannol fel ei gilydd.

Mae Cyfarfod Rhanbarth Norfolk & Waveney wedi datblygu system lle maent yn talu'r Churches Conservation Trust i reoli eu heiddo, ac mae hyn wedi lleihau'r gwaith sydd ei angen ac wedi cael effaith ariannol gadarnhaol. ¹¹

Cyllid

Byddai creu'r elusen newydd yn galluogi system wahanol ond symlach o reolaeth ariannol¹² a fyddai'n caniatáu strwythur newydd yn y dyfodol. Rydym yn awgrymu'n benodol bod y posibilrwydd o becyn cyfrifon ar-lein yn cael ei ystyried. Yn ddiweddar mae Cyfarfod Rhanbarth De'r Gororau wedi cyflwyno'r defnydd o QuickBooks ar gyfer ei holl drafodion ariannol. Mae hyn wedi cymryd amser ond mae eisoes yn dwyn ffrwyth. Mae gofyn i rywun oruchwylio'r project. Y fantais fwyaf yw bod QuickBooks yn gwneud y gwaith cyfuno sydd ei angen i baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y Comisiwn Elusennau sy'n lleihau'n sylweddol gwaith y trysoryddion wrth iddynt baratoi at yr archwiliad ariannol blynyddol ac Adroddiad Ariannol Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y Comisiwn Elusennau.

⁹ Gweler Atodiad 14 – Cumberland United

¹⁰ Gweler Atodiad 10b – *Rhestr Eiddo ym Mherchnogaeth y Pedwar Cyfarfod Rhanbarth*

¹¹ Gweler Atodiad 14 – *Norfolk & Waveney/Churches Conservation Trust*

¹² Gweler Atodiad 11 *Model posib ar gyfer cofnodi ac adrodd ariannol*

Bydd rheoli cyllid 17 o Dai Cwrdd yn her ac mae'n bosib iawn y bydd angen cyflogi rhywun i gadw'r llyfrau. Yn ogystal â hynny byddai gofyn archwilio Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau oherwydd trosiant yr elusen newydd ond gallai hefyd leihau costau oherwydd mai un archwiliad yn unig fyddai ei angen yn hytrach na nifer.

Mae'r profiad o ffurfio London Quaker Property Trust wedi dangos bod modd lleihau nifer y Cronfeydd, yn enwedig Cronfeydd Cyfyngedig a Chronfeydd Gwaddol, mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Elusennau.

Argymhellion ar gyfer y Ffordd Ymlaen¹³

Disgrifiwyd Amcanion y Grŵp Symud Ymlaen fel a ganlyn:-

Ystyried pa newidiadau y gellid eu gwneud i'n galluogi i weithio'n well gyda'n gilydd yng Nghymru, hyrwyddo perthynas rhwng Cyfeillion a rhyddhau amser ac egni ar gyfer bywyd ysbrydol, ymestyn allan a thystio yn y byd.

Ymchwilio i ddewisiadau posib ar gyfer gweithio a chydweithredu'n fwy effeithiol Gallai'r rhain gynnwys rhannu cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr megis rheoli eiddo, a pholisïau'n ymwneud â chyfrifoldebau cyfreithiol.¹⁴

Argymhellion

1. Mewn ymateb i'r amcanion hyn rydym yn argymhell bod y pedwar Cyfarfod Rhanbarth a Chyfarfod Crynwyr Cymru yn cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu'r cynnig sy'n cael ei ffafrio gan y grŵp bod elusen newydd yn cael ei chreu a bod y pum elusen yn cyfuno i ffurfio'r elusen honno.
2. Gwelwn mai dim ond y cam cyntaf yw hwn ac rydym yn argymhell penodi grŵp i symud y cynnig hwn ymlaen.
3. Er mwyn gwneud hyn rydym yn argymhell hefyd y dylai gwaith y grŵp gynnwys:
 - a. drafftio'r holl ddogfennau angenrheidiol e.e. Cynllun Comisiwn Elusennau, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth etc. sydd eu hangen i alluogi cyfuno'r pum elusen.
 - b. Adolygiad trylwyr o'r portffolio eiddo mewn perthynas â chyflwr yr adeiladau, y defnydd ohonynt a'r costau
 - c. ymchwilio i'r defnydd o becyn cyfrifon ar-lein a'i systemau cysylltiedig
 - d. adolygiad o'r penodiadau enwebedig yr ydym yn eu gwneud
4. Rydym yn annog y grŵp i alw ar Gyfeillion o'r tu fewn a'r tu allan i'r pedwar Cyfarfod Rhanbarth er mwyn gwneud defnydd da o'r cyfoeth o wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd sydd gennym.

¹³ Gweler Atodiad 12 – *Llwybr posib at un elusen*

¹⁴ Cyfarfod Cyfarfod Crynwyr Cymru 22/02/20 cofnod 19.33i

5. Rydym yn argymhell bod y grŵp yn cyflwyno cynllun gwaith manwl i'w ystyried ac rydym yn awgrymu eu bod yn adrodd i'r Cyfarfodydd Rhanbarth a'u Hymddiriedolwyr yn rheolaidd ac o leiaf i bob cyfarfod o Gyfarfod Crynwyr Cymru.

Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser ac rydym yn awgrymu ar gyfer y trieniwm nesaf fod pob Cyfarfod Rhanbarth yn penodi tri ymddiriedolwr i weithio gyda'i gilydd fel a ganlyn fel bwrdd ymddiriedolwyr cysgodol:

Cam yn y canol – penodi ymddiriedolwyr ar y cyd.

Yn y senario hwn byddai pob Cyfarfod Rhanbarth yn penodi o leiaf dri Ymddiriedolwr o blith eu haelodau eu hunain, y câi un ohonynt eu penodi hefyd yn Glerc i ymddiriedolwyr y Cyfarfod Rhanbarth. Byddai tri ymddiriedolwr arall yn cael eu hychwanegu at y rhain, un o bob un o'r tri Chyfarfod Rhanbarth arall, fyddai'n rhoi i bob Cyfarfod Rhanbarth gorff ymddiriedolwyr o chwe aelod o leiaf ynghyd â thrysorydd. Nid yw hyn yn golygu y byddai 24 o ymddiriedolwyr yn cael eu penodi ond mewn gwirionedd byddai lleiafswm o 12 yn unig fyddai'n ffurfio grŵp cyfunol fyddai'n gweithio gyda'i gilydd ar faterion yn ymwneud â'r pedwar Cyfarfod Rhanbarth megis adeiladau, cyllid a materion rheoli eraill megis polisïau. Byddai hyn yn galluogi ymddiriedolwyr i weithio gyda'i gilydd yn ystod y trieniwm nesaf, gan ddysgu am sefyllfa cyfarfodydd ar draws Cymru gyfan a'r Gororau. Rhaid pwysleisio mai dim ond cam dros dro yw hwn ar gyfer un trieniwm tra bydd yr elusen gyfunol yn cael ei sefydlu¹⁵.

Yn Narlith Swarthmore Christine Davies cawsom ein hatgoffa ganddi o'r canlynol:-

*Stewardship involves prayer, and it involves thought, and it involves applying what emerges from the two. As individuals our particular talents may lead us to greater emphasis on one of those elements, but they can never be wholly divided within any of us, and as a community we need to be faithful to all three: prayer, thought and application.*¹⁶

Mae'r Grŵp Symud Ymlaen yn credu y bydd ein cynigion yn arwain at gydbwysedd gwell rhwng gweddi, meddwl a chymhwysiad ym mywyd Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau. Mae'r ffocws ar symleiddio dulliau gweithredu'r Cyfarfodydd Rhanbarth a Chyfarfod Crynwyr Cymru ac yn hwyluso esblygiad grwpiau o Gyfeillion fydd yn adlewyrchu'n well y ffocws ar groeso ysbrydol a gweithredu, yn lleol ac yn rhanbarthol.

¹⁵Gweler Atodiad 9 – *Almeley Wootton LM minute*

¹⁶ Christine AM Davis. *Minding the Future* (Darlith Swarthmore) 2008; tt25-6 dyfynnwyd yn Quaker Faith and Practice 15.01

Atodiadau – Gwybodaeth Gefndirol i'r Adroddiad

Mae'r atodiadau yn rhoi peth o'r wybodaeth gefndirol y mae'r Grŵp Symud Ymlaen wedi tynnu arni wrth baratoi eu hadroddiad a llunio eu cynnig. Mae rhai'n fanwl iawn a rhai'n fwy cyffredinol. Fe'u cyflwynir fel dogfen ar wahân.

1. Bywiog ond Bregus, cyflwr Crynwriaeth yng Nghymru a'r Gororau
2. Cylch gorchwyl y grŵp
3. Proses y grŵp
4. Ymgynghori gyda Chyfeillion yng Nghymru a'r Gororau
5. Pam mae'n rhaid i ni fod yn elusen gofrestredig – ymateb gan Paul Parker, Clerc Cofnodi Cyfarfod Blynyddol Prydain
6. Beth yw Cyfarfod Crynwyr Cymru?
7. Quaker Faith and Practice 4.02 the functions of Area Meetings
8. Adroddiad 2006 '*Quaker Structures in Wales and the Borders*'
9. Almeley Wootton LM minute
10. Yr hyn y mae pob Cyfarfod Rhanbarth yn gallu ei gyfrannu at elusen gyfunol
 - 10.a) Pobl a chyfarfodydd
 - 10.b) Rhestr eiddo ym mherchnogaeth y pedwar Cyfarfod Rhanbarth
 - 10.c) Cyllid yn ymwneud ag eiddo
11. Model posib ar gyfer cofnodi ac adrodd ariannol
12. Llwybr posib at un elusen
13. Rhestr polisïau a gweithdrefnau yr ydym wedi gweithio arnynt
14. Cysylltiadau i ddeunyddiau eraill y cyfeirir atynt yn ein hadroddiad